Eitem Agenda 3 **16 Gorffennaf 2010** **WNC 20.10**

ADRODDIAD ARIANNOL HYD AT 31 MAI 2010

Pwrpas

1. Hysbysu'r Pwyllgor Cenedlaethol am faterion ariannol sy'n wynebu Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar hyn o bryd.

BA09/10

2. Dechreuodd Swyddfa Archwilio Cymru ar archwiliad o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn ôl y bwriad ar 21 Mehefin ac mae disgwyl i'r Adroddiad a Chyfrifon gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 30 Gorffennaf.

BA09/11

Crynodeb

3. Eleni, mae fformat newydd i'r cyfrifon rheoli, sy'n dilyn penawdau newydd y Cynllun Corfforaethol. Fel canlyniad, bu'n rhaid i Gydwasanaethau'r Comisiwn Coedwigaeth lunio strwythur adroddiad newydd i ddiwallu ein gofynion. Gwelir yr adroddiad yn Atodiad 1.

4. Mae'r sefyllfa alldro a ragwelir yn adlewyrchu mân newidiadau yn unig i'r gyllideb sydd â chyfanswm o amrywiant anffafriol o £0.150m. Bydd y proffilio yn ôl rhaglenni'n cael ei fireinio yn ystod y misoedd nesaf wrth i ni anelu at wneud yn siŵr fod y rhaglenni gwaith yn cael eu darparu'n gynharach yn y flwyddyn, pryd bynnag y bo modd, er mwyn lleihau gwariant munud olaf.

Materion Ariannol a Materion Perthynol Eraill

5. **Cyllido Llinell Sylfaen** – Er bod graddfa'r lleihau yn dal i gael ei hadolygu, mae'n eglur y bydd cyfran cyllideb Comisiwn Coedwigaeth Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n llai o dipyn ar ôl 2011/12. Er na fydd union raddfa'r lleihau'n cael ei phennu tan yr Adolygiad Gwariant sydd i fod i ddigwydd ym mis Hydref, mae'r Bwrdd Rheoli wedi llunio nifer o ffrydiau gwaith er mwyn nodi meysydd posibl ar gyfer arbedion ariannol ar ben y lleihad o 2% yn y gwariant a gafodd ei gynnwys yn y Cynllun Busnes.

6. **Rhewi cyflogau** – Roedd y Gyllideb ar 22 Mehefin yn cyhoeddi rhewi cyflogau ar draws y sector cyhoeddus i bawb ond y staff ar y cyflogau isaf ar gyfer y blynyddoedd 2011/12 a 2012/13. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn dehongli fod hyn yn golygu y bydd staff sy'n ennill llai na £21,000 yn cael cynnydd o £250 ac y bydd cyflogau'r holl

staff eraill yn cael eu rhewi – gan gynnwys dilyniant cynyddol. Bydd y dyfarniad chwyddiannol o 3.8 y cant (trydedd flwyddyn cytundeb cyflogau tair-blynedd) a'r cynyddiadau sy'n daladwy ym mis Hydref 2010 yn cael eu talu. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried goblygiadau ariannol y cyhoeddiad hwn.

7. **Rheoli â llai** – Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno cyfres o reolaethau er mwyn rheoli ei chostau cynnal, a chafodd yr egwyddorion eu mabwysiadu gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Rhoddwyd y gorau i recriwtio allanol, ac mae cyfyngiadau llymach ar gaffael, defnyddio ymgynghorwyr, gwario ar brosiectau TG, marchnata a hysbysebu.

Dadansoddiad Risg

8. **BA10/11:** Asesir bod y risg o wario mwy na'r gyllideb neu fwy na'n cyllid hyblyg yn **Isel** [Effaith 4; Tebygolrwydd <1].

9. **BA11/12 a thu hwnt:** Mae'r risg o leihad sylweddol yn yr ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer BA11/12 a thu hwnt yn **Uchel** [Effaith 5; Tebygolrwydd 4].

Goblygiadau Adnoddau

10. Fel arfer nid oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau'n codi o'r papur fel y cyfryw. Mae'n gweithredu fel arweiniad i sut mae'r adnoddau presennol yn cael eu rheoli.

Cyfathrebu

11. Mae sefyllfa ariannol Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael ei chyflwyno trwy gyfrwng y papur hwn, sy'n cael ei olygu ar gyfer unrhyw gynnwys masnachol-sensitif, ar y Rhyngrwyd. Yn y cyfamser, fe'i trosglwyddir i Reolwyr Unedau trwy gyfrwng Cyfarfodydd Fforwm Rheolwyr, Cyfarfodydd Grŵp Rheoli'r Ystâd, a thrwy'r Tîm o Dechnegwyr Cyfrifyddu Rheoli sy'n cyfarfod yn rheolaidd â Rheolwyr Unedau Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Hefyd, anfonir copïau o'r Adroddiadau Cyllid gan y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Cenedlaethol at Uned Fusnes Adran Materion Gwledig Llywodraeth y Cynulliad a Chyfarwyddwr Cyllid Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr.

Argymhelliad

12. Bod y Pwyllgor yn nodi'r sefyllfa bresennol.

Martin Veale
Pennaeth Cyllid
25 Mehefin 2010